CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 1) 2021

1. Hysbysir drwy hyn bod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn er mwyn gosod a thynnu'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Gellir gweld manylion llawn y cynigion, a fydd yn cynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig, a Chynllun Rhif T/20/87/WS, ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau sydd gennych i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf.IF932) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn 5 Mawrth 2021 ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:
Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Atodlenni Map AV52
Cynnig i Ddiddymu Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg
St Marys Avenue, Y Barri
Ar ochr y de-orllewin, o bwynt 1.9 metr i'r gogledd-orllewin o'r ffin rhwng eiddo rhifau 2 a 4 tua'r gogledd-orllewin am 10 metr.

Cynnig i Ddiddymu'r Gwaharddiad Aros, dydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am tan 6pm, 2 awr, dim dychwelyd o fewn 2 awr ac eithrio Deiliaid Trwydded Preswylydd
St Marys Avenue, Y Barri
Ar ochr y de-orllewin, o bwynt 7.1 metr i'r gogledd-orllewin o linell adeiladu ogledd-orllewinol eiddo rhif 2 tua'r gogledd-orllewin am 4 metr.

Dyddiedig 11 Chwefror 2021.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA